YR ADOLYGIAD O'R
GOFFRESTR ELUSENNAU

Elusennau i Roi Cymorth i'r Di-waith

Mawrth 1999

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Cynnwys

Am y cyhoeddiad hwn **2**

Diweithdra **2**

Profion ar gyfer statws elusennol **2**

Gwybodaeth bellach **2**

Atodiad - Arweiniad ar statws elusennol cyrff i roi cymorth i'r di-waith **3**

Elusennau sy'n rhoi cymorth i'r di-waith 3

Budd i'r cyhoedd 3

Gweithgareddau derbyniol 4

Amcanion elusennol newydd i roi cymorth i'r di-waith 5

Elusennau sy'n bod 5

Am y cyhoeddiad hwn

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi sut y mae'r Comisiwn Elusennau yn penderfynu i ba raddau y mae rhoi cymorth i'r di-waith yn elusennol. Rydym wedi ystyried hyn fel rhan o'n Hadolygiad o'r Gofrestr Elusennau. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd at baratoi ein harweiniad manwl yn yr Atodiad.

Diweithdra

2. Mae nifer o elusennau eisoes yn cynorthwyo pobl ddi-waith. Er hynny, ni fu hawl gan elusennau gael yr amcan penodol o gynorthwyo pobl ddi-waith. Yn lle hynny eu hamcanion fu hyrwyddo addysg, rhoi cymorth i'r tlodion, neu amcanion elusennol hir-sefydledig eraill.

3. Yn ddiweddar mae'r llysoedd wedi cydnabod bod sicrhau gwaith cyflogedig i bobl ddi-waith yn elusennol ynddo'i hun. Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu'r meini prawf a fydd yn ein galluogi i gofrestru fel elusennau sefydliadau sy'n ceisio rhoi cymorth i'r di-waith. Mae hefyd yn amlinellu rhestr o'r gweithgareddau hynny y gall elusennau sy'n ceisio rhoi cymorth i'r di-waith ymgymryd â hwy.

Profion ar gyfer statws elusennol

4. Yn ein barn ni, er mwyn bod yn elusennol, bydd angen i sefydliad sy'n rhoi cymorth i'r di-waith ddangos:

   - ei fod wedi cael ei sefydlu at y prif ddiben o roi cymorth i'r di-waith er budd y cyhoedd;
   - bod ei weithgareddau wedi'u hanelu tuag at roi cymorth i'r di-waith yn gyffredinol neu ran sylweddol o'r gymuned mewn ffordd y gellir ei dangos mewn modd gwrthrychol; a
   - bod rhaid i unrhyw fuddiannau preifat fod yn atodol yn unig i'w prif ddiben.

5. O fewn hyn gall elusen i'r di-waith ymgymryd â phob un neu unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol:

   - darparu cyngor a hyfforddiant i unigolion di-waith ynglŷn â chyflogaeth, hunangyflogaeth a sefydlu mentrau cydweithredol a darparu cyfleusterau ysgrifennu CV, chwilio am waith a chlwb swyddi iddynt;
   - darparu cefnogaeth ymarferol i bobl ddi-waith trwy gyfrwng llety, cyfleusterau gofal plant neu gymorth gyda theithio;
   - elusennau yn darparu tir ac adeiladau yn is na rhenti'r farchnad neu renti cymorthdaledig i fusnesau sydd newydd ddechrau;
   - darparu grantiau cyfalaf neu offer i fusnesau newydd;
   - elusen rhoi grantiau yn talu busnes masnachol sy'n bod i gymryd staff ychwanegol o blith pobl ddi-waith.

   Byddwn yn datblygu'r rhestr hon o weithgareddau derbyniol yn unol â'n profiad o elusennau i'r di-waith.

6. Amcan posib sy'n cwmpasu'r gweithgareddau hyn yw:

   "rhoi cymorth i'r di-waith er budd y cyhoedd mewn ffyrdd y tybir eu bod yn addas, gan gynnwys cymorth i ddod o hyd i waith".

Gwybodaeth bellach

7. Os oes diddordeb gennych chi sefydlu elusen i helpu'r di-waith, cysylltwch â ni drwy ein gwefan www.comisiwnelusennau.gov.uk.

Atodiad - Arweiniad ar statws elusennol cyrff i roi cymorth i'r di-waith

Elusennau sy'n rhoi cymorth i'r di-waith

A1. Mae'n rhaid i sefydliad elusennol sy'n rhoi cymorth i'r di-waith fodloni pob un o'r meini prawf canlynol:

- mae'n rhaid iddo gael ei sefydlu at y prif ddiben o roi cymorth i'r di-waith er budd y cyhoedd;
- mae'n rhaid i'w weithgareddau gael eu hanelu tuag at roi cymorth i'r di-waith yn gyffredinol neu ran sylweddol o'r gymuned mewn ffordd y gellir ei dangos mewn modd gwrthrychol; a
- bod rhaid i unrhyw fuddiannau preifat fod yn atodol yn unig i'w brif ddiben.

A2. Bydd yr amgylchiadau pan fydd y meini prawf hyn yn cael eu bodloni yn amrywio o sefydliad i sefydliad. Felly bydd angen i ni wybod gan bob un sy'n gwneud cais i gofrestru sut mae'r sefydliad yn bodloni'r meini prawf ym marn yr hyrwyddwyr.

A3. Felly bydd angen i sefydliadau allu dangos cysylltiad clir rhwng y meini prawf yn A1 a'r rheiny y maent yn bwriadu rhoi budd iddynt. Mae hyn yn adlewyrchu ailddatganiad y llys yn **Joseph Rowntree Memorial Trust Housing Association v Att.-Gen [1983] 1 All ER. 288** bod rhaid i unrhyw gymorth gael ei gyfeirio at gynorthwyo angen elusennol a dylai lefel y cymorth fod yn gymesur â'r angen hwnnw. Fel rheol bydd hyn yn cynnwys dangos bod y sefydliad wedi cael ei ffurfio er budd y bobl sy'n chwilio am waith ond nad ydynt yn gallu cael gwaith oherwydd un neu ragor o'r canlynol - diffyg cyfleoedd gwaith, ieuenctid, oedran, gwendid neu anabledd, tlodi, amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd. Mewn rhai achosion efallai fod sefyllfa'r rheiny a all gael budd mor wael fel eu bod wedi'u gwahardd yn gymdeithasol ac nid ydynt yn chwilio am waith. Er hynny byddwn yn eithrio o'r categori rhoi cymorth i'r di-waith achosion lle nad yw'r sawl a allai gael budd yn ddi-waith ar hyn o bryd ond yn dymuno, er enghraifft, fod yn hunangyflogedig.

Budd i'r cyhoedd

A4. Mae'r meini prawf a amlinellir yn A1 uchod yn adlewyrchu natur gyhoeddus fel nodwedd hanfodol elusen. Maent hefyd yn cydnabod, er hynny, nad yw rhoi buddiannau preifat i unigolion yn anghymwyso sefydliad rhag cael statws elusennol ar yr amod bod buddiannau o'r fath yn wirioneddol atodol i gyflawni amcan elusennol. Bydd angen penderfynu ym mhob achos a yw unrhyw fuddiannau preifat yn codi dim ond fel dull angenrheidiol o gyflawni diben elusennol cyffredinol. Er enghraifft, yn **IRC v Oldham Training and Enterprise Council [1996] STC. 1218** penderfynodd y llys bod darparu gwasanaethau cefnogi a chyngor i fusnesau newydd yn caniatáu i'r sefydliad hyrwyddo buddiannau preifat unigolion pe byddai unrhyw fuddiannau i'r gymuned ehangach yn dilyn hyn neu beidio. O ganlyniad, roedd y budd i'r gymuned yn rhy bell o'r gweithgaredd hwn i fod yn elusennol.

A5. Roedd y barnwr yn achos Oldham TEC wedi ystyried rhoi cymorth i'r di-waith o fewn "pedwerydd pennawd dibenion elusennol" (o fewn dosbarthiad yr Arglwydd Macnaghten yn **Income Tax Special Purposes Commissioners v Pemsel [1891] AC 531**). Dan y "pennawd" hwn nid yw budd elusennol i'r gymuned yn cael ei gymryd yn ganiataol ac mae'n rhaid ei brofi. Felly mae angen i elusennau i'r di-waith ddangos eu bod yn ymdrin â diweithdra naill ai'n gyffredinol neu ar gyfer rhan sylweddol o'r gymuned. Ni ddylai hyn eithrio grwpiau llai lleol sydd eisoes yn weithgar wrth ddarparu cefnogaeth i bobl ddi-waith o fewn eu cymunedau rhag ceisio statws elusennol fel elusen i'r di-waith. Er na fydd sefydliadau a ffurfiwyd i roi cymorth i'r di-waith mewn ffyrdd arbennig neu ystadau bach yn gymwys oherwydd ni fyddent yn cwmpasu rhan ddigonol o'r cyhoedd, mae nifer o grwpiau er hynny yn gweithredu dros ardal neu ddosbarth daearyddol ehangach a fyddai fel rheol yn ddigonol i fodloni'r gofyniad hwn. Bydd nifer o'r gweithgareddau a restrir yn A8 isod yn dod o fewn galluoedd sefydliadau llai lleol.

Efallai fod y bobl sy'n byw mewn ardal arbennig o ddiweithdra uchel yn perthyn i grŵp hiliol, ethnig, crefyddol neu grŵp arall yn bennaf, a'r grŵp hwn fydd y prif grŵp sy'n cael budd o weithgareddau'r sefydliad. Mae hyn yn dderbyniol yn nhermau'r gyfraith elusennau **cyhyd â bod** y buddiannau heb eu **cyfyngu** yn ychwanegol i aelodau'r grŵp hwnnw yn unig. Byddai hyn yn cael ei gyfrif yn "ddosbarth o fewn dosbarth", ac mae'n ddosbarth o fudd rhy fach i elusennau a sefydlwyd i roi cymorth i'r di-waith.

Gweithgareddau derbyniol

A6. Mae'r rhestr o weithgareddau sy'n dderbyniol yn ein barn ni ar hyn o bryd wedi'i nodi isod ac rydym wedi cyfuno'r rhain â rhai o'r pwyntiau y bydd angen i hyrwyddwyr ac ymddiriedolwyr gadw mewn cof wrth lunio cais i gofrestru fel elusen neu wrth ystyried p'un ai i ymgymryd ag unrhyw faes gweithgaredd ychwanegol, ar wahân neu beidio. Y gweithgareddau yw:

- darparu cyngor a hyfforddiant i unigolion di-waith ar gyflogaeth, hunangyflogaeth a sefydlu mentrau cydweithredol a darparu cyfleusterau ysgrifennu CV, chwilio am waith a chlwb gwaith iddynt - *er mwyn i lefel y budd preifat fod yn dderbyniol mae angen i ymddiriedolwyr elusennau sy'n darparu "cymorth un i un" i'r rheiny sydd newydd fynd yn hunangyflogedig gael dull ar gyfer tynnu'r gefnogaeth honno yn ôl, er enghraifft, ar sail a gyfyngir gan amser neu'r incwm a enillir;*
- darparu cefnogaeth ymarferol i bobl ddi-waith trwy gyfrwng llety, cyfleusterau gofal plant neu gymorth gyda theithio - *bydd angen i ymddiriedolwyr sy'n darparu cefnogaeth ariannol o'r math hwn sicrhau bod unrhyw symiau a delir wedi'u cysylltu â chostau'r gefnogaeth a ddarperir. Bydd hefyd angen iddynt gael dull ar gyfer tynnu'r gefnogaeth honno yn ôl, er enghraifft ar sail a gyfyngir gan amser neu'r incwm a enillir neu pan fydd rhywun a arferai fod yn ddi-waith yn cwblhau cyfnod o waith dros dro;*
- elusennau yn darparu tir ac adeiladau yn is na rhenti'r farchnad neu renti cymorthdaledig i fusnesau sydd newydd ddechrau - *bydd angen i ymddiriedolwyr esbonio sut y byddant yn pennu a yw darparu tir ar delerau ffafriol yn briodol mewn achos arbennig er mwyn dangos y gofyn am fudd i'r cyhoedd. Hefyd bydd angen iddynt allu dangos eu bod wedi ystyried a fyddai prydles neu drwydded yn fwyaf addas i ddarparu'r math o gymorth sydd ei angen, telerau'r brydles neu drwydded a sut i atal tenantiaid nad ydynt yn gymwys mwyach i gael budd rhag cael sicrwydd daliadaeth o dan Ran II Deddf Landlord a Thenant 1954.*

  Hefyd dylai ystyriaeth yr ymddiriedolwyr ymestyn i'r posibilrwydd o wahardd trosglwyddo neu ildio unrhyw brydles mewn amgylchiadau arbennig e.e. pan na fydd tenantiaid yn gymwys i gael budd. Bydd angen i ymddiriedolwyr ystyried diogelu budd yr elusen yn yr eiddo os yw'r tenant yn mynd yn fethdalwr. Hefyd bydd angen i ymddiriedolwyr ystyried y dull ar gyfer cynyddu rhenti dros y blynyddoedd mewn perthynas â gallu cynyddol busnes y tenant i dalu mwy hyd at rent y farchnad.

  Byddem yn ystyried unrhyw drefniadau i "gynorthwyo busnes" yn rhai i'r rheiny sy'n cael budd o'r elusen wrth hyrwyddo ei hamcanion. Felly byddant yn cael eu cwmpasu gan is-adran 36(9)(c) Deddf Elusennau 1993. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid iddynt gael eu hawdurdodi gan orchymyn gan y Comisiynwyr (gweler hefyd yr arweiniad yn ein cyhoeddiad Hyrwyddo Adfywiad Trefol a Gwledig (RR2)).

  Bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried sut y bydd unrhyw dir yn cael ei drin at ddibenion cyfrifon h.y. a fydd yn cael ei drin fel eiddo swyddogaethol neu eiddo buddsoddi. Efallai na fydd hyn yn glir, er enghraifft, os yw'r eiddo wedi cael ei ddefnyddio i'r ddau ddiben.

- darparu grantiau cyfalaf neu offer i fusnesau newydd - *mae hyn yn cynnwys darparu ystod eang o offer i fusnesau newydd. Bydd angen i ymddiriedolwyr elusennau sy'n darparu cefnogaeth o'r fath sicrhau ei fod yn addas i'r busnes dan sylw ac ni roddir unrhyw warant y bydd cefnogaeth o'r fath yn cael ei hailadrodd. Wrth gwrs yn yr un modd ag unrhyw rai o'r gweithgareddau, ni fydd cefnogaeth ar gael o dan y categori hwn i unigolion sydd wedi gorffen gwaith i ddechrau eu busnes eu hunain - trwy ddiffiniad ni allai hyn gael ei ystyried yn rhoi cymorth i'r di-waith.*
- elusen rhoi grantiau yn talu busnes masnachol sy'n bod i gymryd staff ychwanegol o blith pobl ddi-waith - *bydd angen i ymddiriedolwyr elusennau gytuno â'r busnes masnachol ynglŷn â sut i gyfrifo'r gost economaidd o gyflogi a hyfforddi staff o'r fath. Ni ddylai'r ymddiriedolwyr dalu mwy na'r gost economaidd honno. Derbyniwn y gall y gost economaidd mewn achosion o'r fath amrywio'n sylweddol yn sgîl natur annhebyg cyflogwyr masnachol a'r swyddi y byddant yn eu darparu.*

A7. Rydym yn disgwyl datblygu'r rhestr hon o weithgareddau derbyniol yn sgîl y profiad. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusennau a sefydlwyd i roi cymorth i'r di-waith ac sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau "newydd" nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr hon (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd) gysylltu â ni am gyngor ffurfiol (am ddim) o dan adran 29 Deddf Elusennau 1993 cyn ymgymryd â'r rhain.

Amcanion elusennol newydd i roi cymorth i'r di-waith

A8. Efallai fod sefydliadau am fabwysiadu un amcan i gwmpasu nifer o linynnau cyffredinol yn eu hymagwedd tuag at roi cymorth i'r di-waith. Awgrymwn y gallai hyn fod fel a ganlyn:

"Rhoi cymorth i'r di-waith er budd y cyhoedd mewn ffyrdd y tybir eu bod yn addas, gan gynnwys cymorth i ddod o hyd i waith".

A9. Nid ydym am fod yn or-argymhellol. Efallai ei bod yn well gan sefydliadau unigol nad ydynt yn dymuno mabwysiadu ymagwedd mor eang â hon ddatblygu ymagweddau eraill. Byddwn yn hapus i ystyried y rhain.

Elusennau sy'n bod

A10. Nid oes angen i unrhyw elusen sy'n bod newid ei hamcanion o ganlyniad i'r arweiniad hwn. Fodd bynnag, os yw ymddiriedolwyr elusen sy'n bod am newid amcanion yr elusen honno, cysylltwch â ni drwy ein gwefan www.comisiwnelusennau.gov.uk.

© Hawlfraint y Goron 1999. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Elusennau i Roi Cymorth i'r Di-waith. Mawrth 1999.

RR3